

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths, AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

24 Chwefror 2020

Annwyl John,

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – Gwybodaeth bellach yn sgil y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019 a 29 Ionawr 2020

Ymhellach i'm llythyr dyddiedig 19 Rhagfyr, gweler isod wybodaeth ychwanegol ynghylch ein dull ar gyfer cydgynhyrchu canllawiau perthnasol a threfniadau rheoleiddiol sy'n cael eu creu gan y Bil a darpariaethau'r Bil mewn perthynas ag Awdurdodau Tân ac Achub.

Fel y soniwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor, pan fo'n briodol byddwn yn ceisio cydgynhyrchu'r canllawiau a'r trefniadau rheoleiddiol sy'n cael eu creu gan y Bil. Mae swyddogion hefyd yn ymgysylltu'n helaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), cynrychiolwyr llywodraeth leol a'r trydydd sector drwy'r rhwydweithiau sydd ar gael ac yn ceisio dod i gytundeb ynghylch y materion y darperir ar eu cyfer yn y canllawiau.

Byddwn yn ystyried ymhellach beth yw'r ffordd orau o ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau ehangach, gan asesu'r manteision a geir wrth gynnwys gweithgareddau fel grwpiau ffocws. Fel y nodwyd o'r blaen, croesawaf farn y Pwyllgor ar y mater hwn.

Mae canllawiau a rheoliadau wrthi'n cael eu cydgynhyrchu â llywodraeth leol ar gyfer tair Rhan o'r Bil, sef y rheoliadau a'r canllawiau ynghylch darlledu electronig, mynychu o bell a chyfranogi, y rheini ar gyfer sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a'r canllawiau i gefnogi gweithredu'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Darlledu electronig, mynychu o bell a chyfranogi

Mae swyddogion wrthi'n gweithio mewn partneriaeth gyda grŵp bach ac ynddo CLILC, Swyddogion Monitro a Phenaethiaid Gwasanaethau Democrataidd i archwilio'r materion ymarferol sy'n gysylltiedig â'r rhannau hyn o'r Bil.

Mae'r grŵp wedi cyfarfod ddwywaith hyd yma ac o ganlyniad bydd swyddogion yn ymweld â nifer o awdurdodau lleol i archwilio'r dull darlledu presennol, yr anawsterau a geir a'r cyfleoedd i wella'r trefniadau hyn. Bydd yr ymweliadau yn gyfle hefyd i archwilio'r pryderon a fynegwyd ynghylch nifer ac ystod y cyfarfodydd a ddarlledir. Byddant yn ymweld ag ystod amrywiol o awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys materion sy'n codi o wahanol batrymau daearyddol, maint y boblogaeth a'r gofynion o ran iaith.

Bydd yr ymweliadau hefyd yn amlygu ardaloedd lle mae mynychu o bell wedi cael ei ddefnyddio, neu yn cael ei ddefnyddio, a byddant yn hwyluso trafodaeth ynghylch profiad awdurdodau lleol o'r trefniadau a'u pryderon. Bydd yr ymweliadau hyn yn helpu i fframio'r rheoliadau a'r canllawiau a ddatblygir yn y meysydd hyn.

Bwriedir mabwysiadu dull tebyg ar gyfer y ddyletswydd i annog pobl leol i gyfranogi mewn llywodraeth leol.

Y Gyfundrefn Perfformiad a Llywodraethu – canllawiau

Mae swyddogion wrthi'n gweithio mewn partneriaeth gyda CLILC a grŵp ffocws bach, sy'n cynnwys swyddogion llywodraeth leol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau perfformiad a gwella eu hawdurdodau lleol, i gyd-ddylunio cynnwys y canllawiau statudol ar hunanasesu ac asesiad perfformiad gan banel.

Mae swyddogion hefyd yn gweithio gyda phartneriaid amrywiol eraill i lywio syniadau ar yr agweddau hyn ar y gyfundrefn perfformiad a llywodraethu, gan gynnwys Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rhagwelir y bydd y gweithgor yn cwblhau drafft o'r canllawiau tua diwedd y gwanwyn cyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus.

Cyd-bwyllgorau Corfforedig – Rheoliadau sefydlu

Mae fy swyddogion a minnau wedi ymgysylltu'n helaeth â CLILC ac arweinwyr llywodraeth leol ynglŷn â'r cynnig ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig a datblygu'r rheoliadau. Mae swyddogion wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, megis CLILC a Chyfreithwyr Llywodraeth Leol a Chymdeithas Trysoryddion Cymru i ddod i gytundeb ar y rheoliadau hyn.

Mae cydgynhyrchu yn y ffordd hon yn hanfodol i sicrhau bod y rheoliadau yn addas i'r diben ac y byddant yn ateb y gofynion arfaethedig o ran symleiddio, strwythurau llywodraethu craidd cyson a hyblygrwydd lleol i ddarparu'r hyn sydd ei angen ar ardal.

Mewn meysydd eraill, mae swyddogion hefyd wrthi'n sefydlu grŵp i ystyried canllawiau ynghylch y ddyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol o ran safonau ymddygiad a llunio adroddiadau blynyddol gan bwyllgorau safonau. Yn ogystal, mae gwaith yn yr arfaeth i ymgysylltu â'r sector cynghorau tref a chymuned a'u cyrff cynrychiadol ynglŷn â'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â nhw.

Yn y cyfarfod ar 29 Ionawr, mynegodd y Pwyllgor bryderon Awdurdodau Tân ac Achub ynghylch y darpariaethau yn y Bil a fyddai'n dileu'r angen am ymchwiliad cyhoeddus i newidiadau penodol i orchymnion cyfuno Awdurdodau Tân ac Achub, a chytunais i egluro ein rhesymeg yn llawnach.

Diben gorchymnion cyfuno yw cyfuno ardaloedd awdurdodau lleol yn un ardal Awdurdod Tân ac Achub; heb orchymyn o'r fath, byddai pob awdurdod lleol hefyd yn Awdurdod Tân ac Achub. Mae gorchymnion cyfuno hefyd yn nodi trefniadau llywodraethu'r Awdurdod Tân ac Achub cyfunol, gan gynnwys ei aelodaeth, ei strwythurau a'i drefniadau cyllido. Nid oes a wnelont ddim â gweithrediadau rheng-flaen diffodd tân neu ddiogelwch tân, ac ni allai unrhyw ddiwygiadau iddynt ymdrin â materion o'r fath.

Mae Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ar hyn o bryd yn caniatáu i Awdurdodau Tân ac Achub ei gwneud yn ofynnol cynnal ymchwiliad cyhoeddus lleol i unrhyw newid i'w gorchymnion cyfuno nad ydynt yn cytuno ag ef. Cytunaf y byddai hynny'n briodol pe cynigid newid ardaloedd Awdurdodau Tân ac Achub, er enghraifft, symud ardal awdurdod lleol o un Awdurdod Tân ac Achub i un arall, heb gytundeb y cyrff o dan sylw. Ni fyddai'r Bil yn newid y gofyniad ar gyfer ymchwiliad cyhoeddus mewn achosion o'r fath, er y dylwn bwysleisio nad oes unrhyw gynlluniau gennym i newid ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub ar hyn o bryd.

Serch hynny, ni allaf weld ei bod yn briodol mewn unrhyw ffordd i Awdurdodau Tân ac Achub allu gorfodi ymchwiliadau cyhoeddus i fân newidiadau i'w trefniadau llywodraethu eu hunain, ac ni allaf weld unrhyw fudd cyhoeddus lleol sylweddol yn y materion hyn. Byddai unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud ar ôl ymgynghori'n llawn, a thrwy orchymyn o dan Ddeddf 2004 y gallai'r Senedd ei ddirymu drwy benderfyniad. Mewn cymhariaeth, ceir wrth gwrs lawer o swyddogaethau is-ddeddfwriaethol sy'n rheoleiddio trefniadau llywodraethu mewnol awdurdodau lleol, gan gynnwys rhai yn y Bil hwn, ac eto does dim awgrym y dylai awdurdodau lleol allu gorfodi ymchwiliad cyhoeddus i unrhyw ddefnydd o'r swyddogaethau hyn y maent yn digwydd anghytuno ag ef.

Yn gryno, y cwbl y mae'r Bil yn ei wneud yma yw cysoni proses newid trefniadau llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub â gweddill y sector cyhoeddus. Mae'n cael gwared â sefyllfa unigryw Awdurdodau Tân ac Achub yn hynny o beth, ac yn cynnal y lefelau atebolrwydd arferol ar gyfer newid sy'n bodoli mewn meysydd eraill. Hoffwn ailadrodd na fydd yn rhwystr i ddarparu gwasanaethau tân ac achub ar y rheng flaen mewn unrhyw ffordd.

Yn Gywir



Julie James AC/AM

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government